

Adroddiad Blynyddol Cynghorydd Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr

Cynghorydd (Paul Davies)

Ward: (Caerau)

Plaid: (Llafur)

Mae'r adroddiad hwn yn nodi fy ngweithgareddau allweddol yn ystod y flwyddyn a ddaeth i ben **30 Ebrill 2020**. Fe'i darperir er gwybodaeth i'r holl etholwyr ac nid at unrhyw ddiben arall. Barn y Cynghorydd yw'r safbwyntiau a fynegir yn yr adroddiad hwn, ac nid ydynt o reidrwydd yn cynrychioli safbwyntiau Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr.

Rôl a Chyfrifoldebau

Cefais fy ethol i Gyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr i gynrychioli (Caerau) ar (5 Mai 2017). Rwyf wedi ymgymryd ag amrywiaeth o rolau o fewn y Cyngor eleni gan gynnwys cael fy mhenodi i sawl pwyllgor.

Rwyf wedi cefnogi trigolion fy ward ar amrywiaeth o faterion ac rwyf wedi codi'n ffurfiol 174 o ymholiadau etholwyr gyda'r Cyngor a sefydliadau eraill. Mae hyn yn ychwanegol at fynd i'r afael yn anffurfiol â nifer o faterion eraill yr ydych wedi gofyn i mi eich helpu i'w datrys.

I'm galluogi i gyfiawnhau fy rôl fel eich cynrychiolydd, rwyf wedi mynychu sawl Gweithgaredd Datblygu Aelodau sydd wedi fy nghynorthwyo i sicrhau fy mod yn cynnal fy ngwybodaeth o faterion cenedlaethol a lleol sy'n effeithio ar y Cyngor a fy ward.

Mae rhagor o wybodaeth am fy rolau, cyfrifoldebau a gweithgareddau i'w gweld drwy ddilyn y ddolen hon.

Gweithgaredd Etholaeth Rwy'n ddirprwy gadeirydd Ymddiriedolaeth Datblygu Caerau (CDT) ac rydym yn rhedeg yr hen Ganolfan Gymunedol yn Woodlands Terrace, Caerau. Rydym yn rhedeg y ganolfan er budd trigolion Caerau a Chwm Llynfi, yn enwedig y rhai mwyaf agored i niwed, rydym yn darparu bwyd rhad drwy ein Caffi a'n siop gymunedol, mae gennym lawer o wirfoddolwyr ac rwyf i fy hun yn gyrru i archfarchnadoedd ddwywaith yr wythnos i gasglu bwyd a roddwyd.

Roeddwn hefyd yn pwyso am roi arwyneb newydd i ddwy brif ffordd yn y ward drwy gydol 2019, y mae'r ddau ohonynt bellach wedi'u cwblhau.

Mentrau a Gweithgareddau Arbennig

Rwyf yn gefnogwr prosiect BCBC Caerau Minewater a fydd, gobeithio, yn helpu trigolion Caerau gydag ynni rhatach a gwyrddach i wresogi eu cartrefi, a gobeithio y bydd yn gatalydd ar gyfer prosiectau tebyg ledled De Cymru a gweddill y wlad.

Rwyf hefyd yn aelod o Buddsoddi'n Lleol Caerau (ILC) sy'n gyfrifol am wario grant o 1 Miliwn o bunnoedd gan y Loteri Genedlaethol, rwy'n mynychu cyfarfodydd yn rheolaidd ac rwyf hefyd yn aelod o grŵp datblygu'r rhaglen sy'n goruchwylio Grŵp Llywio ILC, rydym wedi darparu cyllid i bob grŵp yng Nghaerau i'w helpu gyda'u cynaliadwyedd a hyfywedd hirdymor gan fod y grwpiau hyn yn hanfodol er llesiant trigolion Caerau.

Gweithgareddau/Materion Eraill Rwyf yn treulio llawer o amser yn delio â materion sbwriel/ailgylchu yn ward Caerau ac wedi cyflwyno llawer o atgyfeiriadau, mae'n ymddangos bod gennym broblem benodol yn y maes hwn, rwyf wedi ymweld ag eiddo gyda Swyddogion Addysg a bu sawl menter i fynd i'r afael â'r mater.

Rwyf hefyd wedi cael nifer o gyfarfodydd gyda grwpiau chwaraeon lleol ynglŷn â throsglwyddo cyfleusterau chwaraeon lleol cat sy'n broses barhaus.

Rwyf hefyd yn gweithio'n agos gyda'm dau gyd-Aelod ward ar yr holl faterion uchod, mae angen i Gynghorydd weithio gyda'r holl breswylwyr a grwpiau/cynrychiolwyr cymunedol i fod yn effeithiol ac rwyf bob amser yn ymdrechu i wneud hyn.

Cynghorydd P. Davies:

Dyddiad: 1-Mai-2020